**Alun Davies AC/AM**
**Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes**
**Minister for Lifelong Learning and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Aled Evans
Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd a Phort Talbot
Y Ganolfan Ddinesig
Port Talbot
SA13 1PJ

Awst 2017

Annwyl Aled Evans,

Rwyf wedi ystyried eich drafft o Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Fel y gwyddoch o drafodaethau rhwng ein swyddogion, byddwn yn awgrymu bod angen rhoi sylw i'r materion a amlinellir isod yn y cynllun. Hyderaf y cytunwch, ei fod yn bwysig bod pob awdurdod yn cymryd perchenogaeth briodol dros ei gynllun ei hun. Felly, rwyf yn eich gwahodd i fynd i'r afael â'r materion hyn a chyflwyno cynllun diwygiedig. Byddaf wedyn yn gwneud y penderfyniad i gymeradwyo'r cynllun hwnnw neu beidio.

Diolch i chi am yr amser a'r ymdrech yr ydych wedi ei roi ar gyfer cynllunio addysg Gymraeg yn y cyfnod hwn. Mae lansiad ein strategaeth *Cymraeg 2050*, yn ddechrau cyfnod newydd a chyffrous i bawb ohonom. Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, mae angen newidiadau radical a phellgyrhaeddol gan Y Llywodraeth wrth weithredu a chynllunio addysg cyfrwng Cymraeg. Rydym ar drothwy newidiadau arwyddocaol o ran addysg Gymraeg a ni all Llywodraeth Cymru wneud hyn ar ben ei hun.

Byddwch yn ymwybodol erbyn hyn fy mod eisiau gweld newid yn ein dull o gynllunio addysg Gymraeg. Rwyf yn awyddus ein bod yn cydweithio i gynnig addysg Gymraeg o fewn fframwaith gref a chadarn sy'n cynnal twf. Mae gweithio mewn partneriaeth yn fuddiol i'r ddwy ochr a dyma'r unig ffordd y byddwn yn sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

### Materion i'w hystyried

Isod fe welwch yr addasiadau byddwn am i chi wneud i'ch cynllun. Rydym yn sylweddoli mewn rhai achosion, y bydd angen cwblhau eich prosesau mewnol, ond hoffem ofyn a fyddai modd i chi gyflwyno eich cynllun diwygiedig i ni cyn gynted â phosibl a dim hwyrach na **29 Medi 2017**. Wrth gwrs bydd hyn yn dibynnu ar eich prosesau ymgynghori.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Alun.Davies@llyw.cymru
Correspondence.Alun.Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.


We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mater i chi yw penderfynu beth yw ymgynghori teg ac agored o ran amserlenni. Mae'n bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn cael cyfle i gyfrannu eu barn.

Mae'r adborth hwn yn cynnwys sylwadau Aled Roberts ac mae'r rhain yn cael eu hatodi'n llawn yn atodiad 1.

- Cynnwys targedau uchelgeisiol er mwyn cynyddu'r niferoedd mewn addysg Gymraeg
- Angen cynnwys targedau a chamau gweithredu er mwyn sicrhau darpariaeth ddigonol ar gyfer y blynyddoedd cynnar
- Yn dilyn yr arolwg asesu'r galw yn 2013, bydd angen nodi pryd bydd bwriad i gynnal yr un nesaf a sicrhau darlun cliriach o rhan pa ardaloedd lle mae'r angen/neu galw fwyaf.
- Angen cynnwys manylion ar gyfer trefniadau o ran hwyrddyfodiaid.
- Nodi'r ysgolion sydd o fewn trothwy capasiti 10%
- I gynnwys ffigyrau trosglwyddo cynradd i Uwchradd ar gyfer 2016 a manylion ar sut mae'r Uwchradd yn hyrwyddo eu cynnig i'r ysgolion cynradd.
- Trafnidiaeth am ddarpariaeth 11-16 yn ne'r Sir mewn ymateb i'r galw gan rieni – pryd fydd hwn yn weithredol?
- Cynnwys targedau yn neilliant 5 ar gyfer Cymraeg Iaith Gyntaf ac Ail Iaith a darparu mwy o fanylder ynghylch cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol.
- Gosod amserlen a thargedau i gynnal asesiad anghenion dysgu ychwanegol
- Angen amcanion clir ar gyfer cynllunio a datblygu'r gweithlu

Rwyf am eich sicrhau y bydd fy swyddogion yn darparu unrhyw gymorth, cyngor neu arweiniad angenrheidiol.



**Alun Davies AC/AM**
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Minister for Lifelong Learning and Welsh Language

**Atodiad 1**

**CASTELL NEDD PORT TALBOT**

**GWELEDIGAETH**

Mae’r cynllun yn seiliedig ar gynnal y ddarpariaeth cyfredol yn hytrach na dangos unrhyw uchelgais i gyfrannu at strategaeth Llywodraeth Cymru i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae na ddiffyg uchelgais o ran y targedau a dim cynlluniau o ran codi niferoedd er dylid nodi fod bwriad i gyflwyno Strategaeth Addysg Gymraeg yn dilyn yr etholiadau lleol ym mis Mai 2017.

**Deilliant 1**

Mae’r prif amcanion o ran Deilliant 1 yn cynnwys ymrwymiad o ran cynyddu’r darpariaeth cyn-ysgol ag eto does dim targedau wedi eu gosod nac unrhyw fanylion o ran trafodaethau efo Mudiad Meithrin i ehangu ar y ddarpariaeth presennol. Fe ddylai cynnwys ffigurau trosglwyddo rhwng y cylchoedd a’r Cyfnod Sylfaen er mwyn deall os oes gwaith ei angen hefyd i wella ar ganrannau trosglwyddo. Mi fyddai datganiad o ran darpariaeth Dechrau’n Deg cyfrwng Cymraeg o fewn y sir ac unrhyw gynlluniau o ran darpariaeth Cymraeg o fewn cynlluniau Gofal Plant 30 awr hefyd o fantais gyda targedau ar gyfer unrhyw gynnydd o fewn y darpariaeth.

Mae’n rhaid derbyn mae rhagamcanion o’r plant sydd eisoes o fewn y gyfundrefn Gymraeg sydd yma ond wrth ystyried y buddsoddiad diweddar o fewn addysg Gymraeg dylid cynnwys nodyn yn dangos bod cynlluniau i fod yn fwy uchelgeisiol o ran y dyfodol.

Mae’r awdurdod ar fin cynnal asesiad arall o’r galw am addysg Gymraeg yn yr Hydref ond byddai’n dda deall os oes unrhyw gynlluniau o fewn yr awdurdod i gynyddu’r darpariaeth cynradd cyfrwng Cymraeg a’u cynnwys o fewn Band B o’r cynlluniau cyfalaf.

Siomedig yw’r ffaith nad oes esboniad o’r trefniadau o ran hwyrddyfodiaid wrth ystyried nad oes bwriad i gyflwyno cynllun trochi yn dilyn ymgynghoriad efo’r ysgolion Cymraeg.

Nid oes unrhyw wybodaeth wedi ei gyflwyno ynghylch capasiti yr ysgolion cynradd Cymraeg presennol ac yn sgil hynny mae’n anodd deall os oes bwysau ar unrhyw ardaloedd o fewn y sir – byddai angen gwneud mwy wrth gwrs os yw’r sir yn llwyddo o ran cynlluniau i hyrwyddo addysg Gymraeg yn well yn y dyfodol.

Nid oes unrhyw ddatganiad o ran penderfynu ar cyfrwng iaith unrhyw ysgol newydd fydd yn cael ei hadeiladu o dan amodau 106 neu datblygiadau tai o fewn y cynllun lleol.

**Deilliant 2**

Mae’r canrannau sy’n trosglwyddo o ysgolion cynradd Cymraeg i’r uwchradd o dan **Deilliant 2** yn is na llawer o awdurdodau er fod y canrannau wedi bod yn codi yn CNPT yn ystod y tair mlynedd olaf. Mae’n debyg mae dewis rhieni o ran rhesymau daearyddol sy’n gyfrifol ond mae gobaith gweld newid oherwydd buddsoddiad sylweddol o fewn y sector gan yr awdurdod yn ddiweddar gyda ail campws ar gyfer Ysgol Ystalyfera yn agor yn ne y sir. Disgwylir i’r cynllun gynnwys targedau o ran gwella’r canrannau trosglwyddo yn sgil hynny a hefyd y cynlluniau ar gyfer trefniadau pontio mwy cadarn.

**Deilliant 3 a 4**

Mae'r canrannau o fewn Deilliant 3 a 4 o ran disgyblion sy'n astudio mwy na 2 a mwy na 5 pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn sefyll arholiad Cymraeg iaith gyntaf yn Ysgol Ystalyfera yn iach. Nid oes unrhyw esboniad fodd bynnag o ran darparu gwyddoniaeth yn y Gymraeg o fewn yr ysgol.

**Deilliant 5**

Mae angen cynnwys targedau ar gyfer y tair mlynedd o fewn Deilliant 5 i wella cyrhaeddiad o ran Cymraeg Iaith Gyntaf ac Ail Iaith. Mae angen deall hefyd faint o ddisgyblion ar hyn o bryd o fewn ysgolion cyfrwng Saesneg sydd yn gadael ysgol heb sefyll cymhwyster yn yr iaith Gymraeg a pha gynlluniau a gytunwyd efo'r ysgolion hynny yn dilyn dileu'r cwrs byr ail iaith TGAU.

Mae angen fwy o fanylder ynghylch trefniadau'r awdurdod o ran cynyddu cyfleoedd i bobl ifainc ddefnyddio'r Gymraeg o fewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol, Dylid hyn gynnwys unrhyw dargedau a gytunwyd efo'r Urdd, Gwasanaeth Ieuenctid, Menter Iaith ac asiantaethau eraill i gynyddu'r ddarpariaeth.

Nid oes unrhyw wybodaeth wedi ei gyflwyno o ran Deilliant 5(4).

**Deilliant 6**

Mae disgrifiad o'r strwythurau sy'n weithredol rhwng Ysgol Gyfun Ystalyfera a'r ysgolion cynradd o ran darpariaeth ADY o fewn y prif ffrwd o dan Deilliant 6 a hefyd datganiad nad oes galw digonol am ddarpariaeth arbenigol megis Canolfan Cefnogi Dysgu pwrpasol cyfrwng Cymraeg. Serch hynny mae angen deall os oes archwiliad o'r gwasanaeth wedi ei gynnal erbyn hyn ac os oes unrhyw fylchau wedi eu nodi. Mae angen deall sut fydd delio efo unrhyw fylchau yn cynnwys amserlen o ran unrhyw drafodaethau is-ranbarthol .

**Deilliant 7**

Dylid cynnwys manylion o unrhyw asesiad sgiliau iaith a gynhaliwyd o fewn y cyngor gan nodi unrhyw benderfyniadau o ran hyfforddiant neu datblygiad proffesiynol yn deillio o hynny o fewn Deilliant 7.

Bu i'r awdurdod nodi o fewn ei cynllun blaenorol fod y Gymraeg yn colli tir ym Mrynaman Isaf, Gwaun Cae Gurwen a Cwm Llynfell a byddai'n ddiddorol deall pa gamau a gymerwyd gan yr awdurdod o ran atgyfnerthu'r iaith o fewn yr ardaloedd hynny o ran y polisi addysg.